# Wrth ei ddesg gyda L-G

D. Ll. George 1st cl. pupil "successful in passing the preliminary Exn of the "Incorporate Law Society" at Liverpool, & received the Certificate. Robt. Williams, P.T. still absent from illness.

## Gan ELIS GWYN

YN 1865 penodwyd dyn ifanc pump ar hugain oed o Landwrog, David Evans, yn ysgolfeistr Llanystumdwy, i olynu un o athrawon yr hen drefn, Richard Davies. Treuliodd ef ei oes yn y pentref o fewn cwmpas pedwar adeilad sydd megis am y gerddi â'i gilydd, yn athro yn yr ysgol, yn yfed drws nesaf yn y Crown, yn lletya yn y Gwyndy ac yn corlannu'r plant i lofft yr eglwys ar y Sul.

Teip gwahanol oedd David Evans; cydwybodol, di-hiwmor, ac fel y dywedodd un o'i ddisgyblion, David Lloyd George, amdano ymhen blynyddoedd, 'cryn athrylith'. Yn ystod ei chwarter canrif yn yr ysgol, bu farw ei wraig a thri o'i blant, ond magwyd un o'i ferched gan ei thaid a'i nain, yn y Gwyndy Bach neu dŷ'r efail.

Mae un o feibion y ferch honno, Robert Jones, yn dal i fyw yn y pentref. Dyna dair cenhedlaeth felly'n pontio 157 o flynyddoedd, gan mai yn 1831 y ganed David Evans.

Ysgol Eglwysig neu 'Genedlaethol' oedd ysgol y pentref, ac felly yr oedd hi yn ein dyddiau ni.

* * *

YN EI lyfr ar ei ewythr Richard Lloyd, mae William George yn cyfeirio at y rheol fod yn rhaid i bob disgybl-athro fynd i'r Eglwys, ymneilltuwyr neu beidio. Hyd yn oed yn 1934 teimlai William George yn bur chwerw am y drefn honno: 'Yr oedd ... yn demtasiwn fawr i fechgyn o dalent ac uchelgais i dderbyn unrhyw wahoddiad a ddeuai iddynt o garchardy'r pentref i gyfeiriad plasty'r byd', er mai mynd yn berson oedd ystyr 'plasty'r byd' fel rheol.

Cyfeirir yn neilltuol ganddo at ddau o'r disgybl-athrawon a ddaeth yn bersoniaid, Evan Evans a Robert Williams. Mae William George yn meddwl y byd o Evan Evans, a fu'n rheithor Llansadwrn ym Môn ac yn hynafiaethydd, ond nid oes ganddo ddim i'w ddweud wrth Robert Williams.

Magwyd Robert yn y Felin Bach, am yr afon â'r ysgol, yn fab i 'fethodist blaenllaw' o felinydd, ond yn ôl y cofiannydd 'wedi iddo "droi ei gôt" aeth Robert yn filitaraidd yn ei Eglwysyddiaeth a chyn ei farw daeth i'w adnabod fel y Canon Camber Williams'.

Mae'r darn a ddangosir yma allan o lyfr cofnodion David Evans yn cyfeirio at fis Rhagfyr 1877. Yr oedd y 'PT' Robert Williams yn absennol ers 12 Tachwedd, ac yn Ionawr y flwyddyn wedyn mae'r ysgolfeistr yn nodi'n siarp iawn fod R.W. i'w weld allan bob nos 'daily and late'.

Cymydog agos iddo, gyda llaw, oedd Owen Gough Jones, mab Myrddin Fardd, yntau'n brentis-athro pymtheg oed yn ôl cyfrifiad 1881, ac fel organydd mewn eglwys yn Brimingham y gorffennodd ef ei yrfa.

* * *

I DDYCHWELYD at Evan Evans. Wedi penodi Lloyd George yn Ganghellor y Trysorlys, cynhaliwyd cyfarfod anferthol yn y pentref i'w longyfarch a'i anrhegu. Ni fedraf ddweud o ba bapur Saesneg y daw'r adroddiad sydd gennyf i, ac nid yw'r union ddyddiad yn y toriad chwaith, ond cadeirydd y cyfarfod oedd 'The Rev. Evan Evans, rector of Llansadwen', felna - ond yr unig lithriad mewn ugain modfedd o golofn mewn print mân.

Mewn teyrnged glodforus i'w hen ysgolfeistr David Evans, dywedodd y Canghellor na chafodd yr un ysgol erioed well prifathro. Canmolodd ei athro cyntaf, Evan Evans gyda'r un brwdfrydedd. Ar ddiwedd y cyfarfod cyflwynwyd blodau i Mrs Lloyd George gan David John Jones, ŵyr i David Evans. Bu ef yn ysgolfeistr Llanfechain ac yn gymharol ddiweddar y bu farw.

Yn y cyfamser, mae'n amlwg nad oedd bod yn absennol yn ystod ei brentisiaeth fel disgybl-athro wedi amharu dim ar yrfa Robert Williams. Yn ôl y Canon William Jones, rheithor presennol Llanystumdwy, bu gan fyfyrwyr eglwysig achos i'w fendithio oherwydd y cymorth a gaent o Gronfa Camber Williams.

* * *

YN 1901 dyma'r *Geninen* yn cynnwys ysgrifau ar 'Yr Eglwys a'r Adfywiad Cenedlaethol', a chafwyd pennod ar 'Dyben Cenedlaetholdeb y Cymry' gan R. Camber-Williams. Nid yw'n wrth-Gymreig, ac y mae'n sgrifennu'n ddigon hynaws, ond yn wyliadwrus iawn.

Erbyn hynny yr oedd yn ficer Llanbedr Pont Steffan ac yn amlwg yn llefaru oddi yno fel petai o ryw Gaergrawnt Cymreig.

Yn rhifyn Mehefin 1916 o CYMRU cyhoeddir llythyr oddi wrth 'y Canghellydd R. Camber Williams', yn ateb dyfyniad o'r *Drych* a oedd wedi ymddangos yn rhifyn Mawrth y flwyddyn honno.

Dros gyfnod y rhyfel, meddai'r dyfyniad, 'Apeliodd y Llywodraeth ar i'r holl wlad roddi i fyny yfed gwin a diod gadarn ... Cydsyniodd y Weinyddiaeth a'r Brenin, ond gwrthododd Archesgob Eglwys Loegr yr hunanymwadiad'.

Cywiro'r honiad y mae Camber Williams drwy ddyfynnu'r Brenin a'r Archesgob a rhoddi'r dyddiadau.

Hyd yn hyn, ni welais ddim arall o law'r Canghellydd Camber Williams, neu Robin Felin Bach.


# AR WERTH

## Dalennau gan Wasg Gregynog
## sef
## Neges Flynyddol Ieuenctid Cymru
## Trwy'r Radio i'r Byd

*Copïau o Neges 1922, 1932-1938*

*Argraffwyd mewn coch a du ar bapur a wnaed â llaw*

*Set o 8 - £20*
*Set o 6 - £18*
*Set o 5 - £15*
*Set o 4 - £12*
*Set o 3 - £9*

*Copïau unigol o Neges 1932 a 1934 £2 yr un*

**Ymholer â: Yr Ysgrifennydd,**
**Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Dyfed, SY23 3BU**
**Ffôn: 623816**